# CYNLLUN MARCIO TAG UG

## HAF 2016

## CYMDEITHASEG - UNED 1 (NEWYDD)
## 2200N10-1

Fersiwn Cymraeg o'r cynllun marcio cyfrwng Saesneg gwreiddiol yw hwn. Ni chafodd ei ddefnyddio'n ymarferol yn y gynhadledd farcio.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

## CYFLWYNIAD

Defnyddiwyd fersiwn Saesneg gwreiddiol y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

**TAG CYMDEITHASEG**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2016**

## Adran A

### Cwestiwn gorfodol

1. Darllenwch yr eitem isod ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Mae plant yn dechrau dysgu am ddisgwyliadau cymdeithasol yn ifanc iawn. Maen nhw'n dysgu normau a gwerthoedd cymdeithas yn ogystal â rolau rhywedd. Mae'r broses gymdeithasoli yn dechrau yn y teulu. Yr enw ar hynny yw **cymdeithasoli cynradd.**

(a) Gan gyfeirio at yr eitem a gwybodaeth gymdeithasegol, esboniwch ystyr y term **cymdeithasoli cynradd.** [5]

Dylai atebion gynnwys pwyntiau gwybodaeth cywir ar gyfer band 3 AA1. Dylai pwyntiau gael eu cefnogi gan enghreifftiau a/neu dystiolaeth. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael esboniad clir o'r enghreifftiau/y dystiolaeth.
Cynnwys dangosol

- Diffiniad o'r term cymdeithasoli cynradd – disgwyliwch gyfeiriad at y ddwy elfen; cynradd / cyntaf, cymdeithasoli / diwylliant dysgu.
- Termau cysylltiedig – modelau rôl, cyfrwng cymdeithasoli, rhieni, brodyr a chwiorydd.
- Enghreifftiau perthnasol
- Dylai'r eitem gael ei defnyddio i ddangos dealltwriaeth.

| Band | AA1<br>*elfennau 1a ac 1b* | AA2<br>*elfen 1a* |
|---|---|---|
| 3 | **3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn.<br>Bydd cyfeirio at yr eitem er mwyn dangos y gallu i ddewis enghreifftiau priodol. |
| 2 | **2 farc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. |
| 1 | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

ⓗWJEC CBAC Cyf.

(b) Gan ddefnyddio deunydd o'r eitem a gwybodaeth gymdeithasegol, esboniwch sut mae unrhyw **ddau** gyfrwng cymdeithasoli yn dylanwadu ar hunaniaeth rhywedd. [10]

Dylai ffocws yr ateb fod ar sut gall unrhyw ddau gyfrwng cymdeithasoli a ddylai gael eu henwi, ddylanwadu ar hunaniaeth rhywedd.

Dylai atebion archwilio dau gyfrwng cymdeithasoli ar gyfer band 3 yn AA1 ac AA2. Dylid cael defnydd cywir o derminoleg allweddol, gan esbonio'r broses o gymdeithasoli yn y ddau gyfrwng ar gyfer marciau band 3 AA1. Dylai enghreifftiau priodol gael eu defnyddio i ddangos dealltwriaeth ar gyfer pob cyfrwng a lle caiff yr eitem ei defnyddio'n effeithiol, bydd hyn yn gyson â marciau band 3 AA2.

Cynnwys dangosol

- Dylai termau fel model rôl, dynwarediad, sancsiwn gael eu disgwyl/ eu gwobrwyo.
- Dylid gwobrwyo termau fel sianelu, manipwleiddio, pwysau grŵp cyfoedion lle bo hynny'n briodol.
- Bydd defnydd cywir o dermau a chysyniadau cysylltiedig fel benywaidd, gwrywaidd, normau, disgwyliadau
- Bydd yr atebion gorau'n cyfeirio at enghreifftiau penodol.
- Dylai'r eitem gael ei defnyddio i ddangos dealltwriaeth

| Band | AA1<br>*elfennau 1a ac 1b* | AA2<br>*elfen 1a* |
|---|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn.<br>Caiff defnydd priodol ei wneud o'r eitem i ddangos dealltwriaeth. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn.<br>Bydd peth cyfeirio at yr eitem. |
| 1 | **1-2 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

**Adran B**

Dewiswch ***un*** o'r opsiynau canlynol

**Opsiwn 1 Teuluoedd ac Aelwydydd**

Cwestiwn gorfodol

2. (a) (i) Esboniwch ystyr y term teulu dau-incwm. [5]

Dylai fod diffiniad cywir. Dylai atebion gynnwys pwyntiau gwybodaeth cywir ar gyfer band 3 AA1. Dylai pwyntiau gael eu cefnogi gan enghreifftiau a/neu dystiolaeth. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael esboniad clir o'r enghreifftiau/y dystiolaeth.

Cynnwys dangosol

- Diffiniad cywir o'r term – y ddau bartner mewn perthynas mewn gwaith
- Adlewyrchiad o'r ffaith bod menywod â phlant bellach yn gweithio
- Y syniad o deulu dwy-yrfa (Rapoport a Rapoport)
- Teuluoedd dau-incwm a'r shifft ddwbl (Hochschild).
- David Cheal – Cydbwysedd cyflogaeth a bywyd teuluol

| **Band** | **AA1**<br>***elfennau 1a ac 1b*** | **AA2**<br>***elfen 1a*** |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn.<br>Bydd cyfeirio at yr eitem er mwyn dangos y gallu i ddewis enghreifftiau priodol. |
| **2** | **2 farc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. |
| **1** | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

ⓗWJEC CBAC Cyf.

(ii) Mae ystadegau ac ymchwil yn dangos bod cynnydd yn nifer y bobl sydd ddim yn priodi.
Esboniwch **ddau** reswm cymdeithasegol dros hynny. [10]

Ar gyfer band 3 AA1 dylid cael dau reswm gyda thystiolaeth / enghreifftiau cefnogol ar gyfer y ddau. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael esboniad clir o'r rhesymau a'r enghreifftiau/ tystiolaeth gefnogol.

Cynnwys dangosol

- Mae dewis gan fenywod sengl gan fod mwy o gyfleoedd iddyn nhw mewn addysg a gwaith (Scarse)
- Y pwyslais cynyddol ar annibyniaeth a rhyddid (Hall)
- Mae menywod yn arbennig wedi dadrithio â phriodas (Gittins)
- Newid normau a gwerthoedd
- Priodi'n ddiweddarach ac ysgariad (Somerville)
- Argyfwng gwrywdod
- Cynnydd mewn cyd-fyw
- Cost priodas

| **Band** | **AA1**<br>***elfennau 1a ac 1b*** | **AA2**<br>***elfen 1a*** |
|---|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn.<br>Caiff defnydd priodol ei wneud o'r eitem i ddangos dealltwriaeth. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn.<br>Bydd peth cyfeirio at yr eitem. |
| **1** | **1-2 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

©WJEC CBAC Cyf.

**Naill ai**

2. (b) Aseswch y safbwynt mai'r teulu cnewyllol yw'r math delfrydol o deulu. [30]

Dylai atebion ddangos y gallu i wneud synnwyr o ddadleuon cymdeithasegol, i gynnig enghreifftiau cymdeithasegol ac i esbonio cysyniadau cymdeithasegol. Mae angen i atebion ddefnyddio terminoleg allweddol. Rhoddir marciau am drafodaeth effeithiol lle mae tystiolaeth o wybodaeth fanwl ac eang. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4. Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau dehongli a thrafod gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Dylai fod dealltwriaeth glir bod hyn yn safbwynt swyddogaethol a/neu y Dde Newydd.
- Dylid trafod y safbwynt hwn a gellir cyfeirio at awduron fel Parsons, Murray, Morgan, Dennis ac Erdos, Saunders ac amrywiol feddylwyr gwleidyddol.
- Efallai y bydd cyfeiriad at bryderon sy'n cael eu codi ynghylch amrywiaeth deuluol e.e. teuluoedd rhiant sengl, dylanwad negyddol honedig ysgariad ar blant. Dylid cysylltu'r pwyntiau hyn â'r cwestiwn.
- Gellir ystyried safbwyntiau damcaniaethol eraill i asesu'r safbwynt bod y teulu cnewyllol yn ddelfrydol:
    - Ffeministaidd e.e. Delphy a Leonard
    - Marcsaidd e.e. Zaretsky
    - Ôl-foderniaeth e.e. Stacey
- Dylai syniadau gael eu cymharu a'u trafod gan gyfeirio at dystiolaeth ac enghreifftiau cefnogol

| Band | AA1<br>*elfennau 1a ac 1b* | AA2<br>*elfen 1a* | AA3<br>*llinynnau 1-3* |
|---|---|---|---|
| 4 | **12-14 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd eu harchwilio. |
| 3 | **8-11 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 2 | **4-7 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| 1 | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig. Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

**Neu**

2. (c) Trafodwch arwyddocâd y rhesymau dros y gyfradd ysgaru uchel yn y DU gyfoes. [30]

Dylai atebion ddangos y gallu i wneud synnwyr o ddadleuon cymdeithasegol, i gynnig enghreifftiau cymdeithasegol ac i esbonio cysyniadau cymdeithasegol. Mae angen i atebion ddefnyddio terminoleg allweddol. Rhoddir marciau am drafodaeth effeithiol lle mae tystiolaeth o wybodaeth fanwl ac eang. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4. Fodd bynnag gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau dehongli a thrafod gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Dylai fod dealltwriaeth glir o'r rhesymau dros y gyfradd ysgaru uchel yn y DU gyfoes.
- Gellir cyfeirio at y graddau o ysgariad yn y DU gyfoes. Disgwyliwch ddefnydd cywir o ddata.
- Newidiadau deddfwriaethol – Deddf Diwygio Ysgariad 1969/1971, Deddf Cyfraith Teulu 1996. Gellir cyfeirio at bolisi cymdeithasol sy'n cynnig cefnogaeth i rieni sengl
- Newid agweddau tuag at, a disgwyliadau o, briodas – Fletcher, Giddens, Allan a Crow, Gibson.
- Seciwlareiddio
- Newid gwerthoedd cymdeithasol a normaleiddio ysgariad - Cockett a Tripp
- Annibyniaeth economaidd gynyddol menywod – Allan a Crow, Hochschild
- Dylid cymharu a thrafod arwyddocâd y rhesymau hyn. Efallai fod cyfeiriad at ddadleuon damcaniaethol - safbwynt y Dde Newydd bod budd-daliadau lles rhy hael yn annog ysgariad neu'r safbwynt ffeministaidd bod newidiadau i rôl menywod wedi rhoi grym iddynt.

ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>*elfennau 1a ac 1b* | AA2<br>*elfen 1a* | AA3<br>*llinynnau 1-3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **12-14 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd ei harchwilio. |
| **3** | **8-11 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd ei harchwilio. |
| **2** | **4-7 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd ei harchwilio. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig. Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd ei harchwilio. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

## Opsiwn 2 Diwylliannau Ieuenctid

**Cwestiwn gorfodol**

3. (a) (i) Esboniwch ystyr y term neo-lwyth. [5]

Dylai fod diffiniad cywir. Dylai atebion gynnwys pwyntiau gwybodaeth cywir ar gyfer band 3 AA1. Dylai pwyntiau gael eu cefnogi gan enghreifftiau a/neu dystiolaeth. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael esboniad clir o'r enghreifftiau/y dystiolaeth.

Cynnwys dangosol

- Diffiniad cywir. Grwpio llac o amgylch rhannu arddull neu chwaeth
- Bennett ac arwyddocâd y term neo-lwyth
- Gellir cyfeirio at nodweddion neo-lwythau e.e. byrhoedlog, cyfun-cydwedd a chymysgedd o arddulliau.
- Maffesoli, Bauman a newid hunaniaeth
- Archfarchnad o arddull
- Yn seiliedig ar ddewis
- Ôl-foderniaeth

| Band | AA1<br>***elfennau 1a ac 1b*** | AA2<br>***elfen 1a*** |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn.<br>Bydd cyfeirio at yr eitem er mwyn dangos y gallu i ddewis enghreifftiau priodol. |
| **2** | **2 farc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/ y cwestiwn. |
| **1** | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

(ii) Mae ymchwil wedi dangos bod rhai pobl ifanc yn ffurfio isddiwylliannau gwrth-ysgol.
Esboniwch **ddau** reswm cymdeithasegol dros hynny. [10]

Ar gyfer band 3 AA1 dylid cael dau reswm gyda thystiolaeth/enghreifftiau cefnogol ar gyfer y ddau. Ar gyfer band 3 AA2 dylid cael esboniad clir o'r rhesymau a'r enghreifftiau/ tystiolaeth gefnogol.

Cynnwys dangosol

- Rhwystredigaeth statws – Cohen
- Bechgyn gwrol *(macho)* – Mac Ghaill – ymdopi â methiant academaidd
- Willis – Dysgu Llafurio – strategaeth i ymdopi â gormes a tedium
- Ymateb i agweddau hiliol mewn ysgolion – Sewell

| **Band** | **AA1**<br>***elfennau 1a ac 1b*** | **AA2**<br>***elfen 1a*** |
|---|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos gallu manwl i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn.<br>Caiff defnydd priodol ei wneud o'r eitem i ddangos dealltwriaeth. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2-3 marc**<br>Atebion yn dangos peth gallu i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn.<br>Bydd peth cyfeirio at yr eitem. |
| **1** | **1-2 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

**Naill ai**

3. (b) Aseswch y safbwynt bod diwylliannau ieuenctid yn gweithredu fel math o wrthsafiad. [30]

Dylai atebion ddangos y gallu i wneud synnwyr o ddadleuon cymdeithasegol, i gynnig enghreifftiau cymdeithasegol ac i esbonio cysyniadau cymdeithasegol. Mae angen i atebion ddefnyddio terminoleg allweddol. Rhoddir marciau am drafodaeth effeithiol lle mae tystiolaeth o wybodaeth fanwl ac eang. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4. Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau dehongli a thrafod gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Dylid cael dealltwriaeth glir o'r safbwynt Marcsaidd ar ddiwylliannau ieuenctid.
- Disgwyliwch gyfeiriadau at waith y CCCS ac awduron fel Hall a Jefferson, Phil Cohen, Hebdige. Dylid trafod y cyfeiriadau hyn o ran gwrthsafiad.
- Dylid trafod cryfderau a gwendidau'r syniadau hyn
- Gellir defnyddio damcaniaethau/esboniadau eraill i wrthddweud y safbwynt bod diwylliannau ieuenctid yn bodoli fel math o wrthsafiad.
    - Swyddogaethol – Parsons, Eisenstadt, y pontio o blentyndod i fyd oedolion.
    - Esboniadau o ddiwylliant ieuenctid benywaidd – diwylliant ystafell wely, McRobbie a Garber
    - Ieuenctid yn cydymffurfio – Muncie
    - Safbwyntiau ôl-fodernaidd o ddiwylliannau ieuenctid – Roberts, Maffesoli, Giroux

ⓗWJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1<br>*elfennau 1a ac 1b* | AA2<br>*elfen 1a* | AA3<br>*llinynnau 1-3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **12-14 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau / cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd eu harchwilio. |
| **3** | **8-11 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/tystiolaeth gafodd ei harchwilio. |
| **2** | **4-7 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd ei harchwilio. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig. Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |

**Neu**

3. (c) Trafodwch arwyddocâd y rhesymau dros newidiadau i ddiwylliannau ieuenctid yn y DU gyfoes. [30]

Dylai atebion ddangos y gallu i wneud synnwyr o ddadleuon cymdeithasegol, i gynnig enghreifftiau cymdeithasegol ac i esbonio cysyniadau cymdeithasegol. Mae angen i atebion ddefnyddio terminoleg allweddol. Rhoddir marciau am drafodaeth effeithiol lle mae tystiolaeth o wybodaeth fanwl ac eang. Lle mae'r atebion yn dangos pob gallu i'r safon uchaf yna byddant yn gyson â Band 4. Fodd bynnag, gall atebion sy'n dangos gwybodaeth ond llai o sgiliau dehongli a thrafod gyflawni Band 4 ar gyfer AA1 ond bandiau is ar gyfer AA2 ac AA3.

Cynnwys dangosol

- Dylai fod dealltwriaeth glir o'r rhesymau dros newidiadau i ddiwylliannau ieuenctid yn y DU gyfoes. Gellir cyfeirio at awduron fel Muggleton, Maffesoli, Furlong a Cartmel.
- Globaleiddio ac is-ddiwylliannau ieuenctid croesryw – Luke a Luke, Cashmore
- Prynwriaeth a threuliant, Bennett
- Dewis, Thornton
- Dylanwad y dosbarth yn dirywio, Willis
- Cyfranogiad a rhywedd, McRobbie
- Wedi'i wleidyddoli llai, Hackett
- Gall fod cyfeiriad at newidiadau cymdeithasol neu economaidd diweddar
- Dylid cymharu a thrafod arwyddocâd y rhesymau hyn. Efallai fod cyfeiriad at ddadleuon damcaniaethol

| Band | **AA1**<br>**elfennau 1a ac 1b** | **AA2**<br>**elfen 1a** | **AA3**<br>**llinynnau 1-3** |
|---|---|---|---|
| **4** | **12-14 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4 marc**<br>Atebion yn dangos dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff y rhain eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **10-12 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon manwl, trefnus a rhesymegol. Caiff barn a chasgliadau rhesymegol eu cynnig yn seiliedig ar werthuso eglur o'r damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth berthnasol gafodd eu harchwilio. |
| **3** | **8-11 marc**<br>Atebion yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **3 marc**<br>Atebion yn dangos peth dethol damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yn gywir ac yn berthnasol. Caiff rhai ohonynt eu cymhwyso a'u dehongli yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **7-9 marc**<br>Atebion yn dangos rhai dadleuon trefnus a rhesymegol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos peth gwerthuso o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| **2** | **4-7 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy’n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **2 farc**<br>Atebion yn dangos gallu sylfaenol i ddethol, cymhwyso a dehongli damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol briodol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **4-6 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon sylfaenol. Bydd barn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso sylfaenol o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd ei harchwilio. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol sy'n berthnasol i gyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1 marc**<br>Atebion yn dangos gallu cyfyngedig i ddethol a/neu ddehongli a/neu gymhwyso damcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gymdeithasegol yng nghyd-destun y ddadl/y cwestiwn. | **1-3 marc**<br>Atebion yn dangos dadleuon cyfyngedig. Bydd unrhyw farn a chasgliadau sy'n cael eu cynnig yn dangos gwerthuso cyfyngedig o unrhyw ddamcaniaethau/ cysyniadau/ tystiolaeth gafodd eu harchwilio. |
| | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP | **0 marc**<br>DPCP |



ⓗWJEC CBAC Cyf.